Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Craffu blynyddol 2024: Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru

## Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith (Ebrill 2025)

Ym mis Ebrill 2025, cyflwynodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith ei adroddiad ar ei graffu blynyddol ar Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru.

Mae'r adroddiad yn cynnwys 10 o argymhellion sylweddol.

Dyma ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion hynny.

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad ..... 3**

**2. Ymateb i'r Argymhellion ..... 4**

Argymhelliad 1 ..... 4
Argymhelliad 2 ..... 4
Argymhelliad 3 ..... 5
Argymhelliad 4 ..... 6
Argymhelliad 5 ..... 6
Argymhelliad 6 ..... 6
Argymhelliad 7 ..... 6
Argymhelliad 8 ..... 8
Argymhelliad 9 ..... 8
Argymhelliad 10 ..... 8

# 1. Cyflwyniad

Sefydlwyd Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru gan Lywodraeth Cymru yn 2018 i fod yn gorff cynghori annibynnol anstatudol i Weinidogion Cymru. Ei brif ddiben yw dadansoddi, cynghori a gwneud argymhellion ar anghenion seilwaith economaidd ac amgylcheddol strategol hirdymor Cymru dros gyfnod o 5–80 mlynedd.

Cafodd y Comisiwn ei adnewyddu yn 2021 o dan arweiniad Cadeirydd newydd, Dr David Clubb. Ers etholiad diwethaf y Senedd yn 2021, mae'r comisiwn wedi bod â ffocws, rôl a chylch gorchwyl newydd ac mae wedi cyflwyno dau adroddiad mawr ar ynni adnewyddadwy a llifogydd, a bydd trydydd adroddiad yn cael ei gyhoeddi yn nes ymlaen eleni.

Hoffai Llywodraeth Cymru ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith am eu hadroddiad yn dilyn eu sesiwn graffu flynyddol ar Gadeirydd y Comisiwn. Rydym wedi nodi ein hymateb i argymhellion unigol yr Adroddiad isod.

# 2. Ymateb i'r Argymhellion

## Argymhelliad 1

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Rhaid i Lywodraeth Cymru ddod **â**'i hadolygiad o'r Comisiwn i ben drwy wneud argymhellion cadarn ar statws, rôl ac amcanion y Comisiwn ar gyfer y dyfodol.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru yn gweld gwerth corff annibynnol yn benodol ar gyfer cynnal ymchwiliadau manwl o ddyfodol yr amrywiaeth o sectorau seilwaith yng Nghymru a gwneud argymhellion gwrthrychol ynghylch dyfodol y sectorau hyn.

Mae'r Comisiwn hefyd wedi dechrau gweithio eleni ar asesiad seilwaith ar gyfer Cymru, a fydd yn caniatáu i'r Comisiwn a Llywodraeth Cymru ystyried yr heriau mawr sy'n wynebu seilwaith Cymru yn y dyfodol mewn modd strategol.

O ystyried hyn; y ffaith bod rhaglen waith y Comisiwn wedi'i gosod ar gyfer y flwyddyn i ddod; ac etholiadau'r Senedd ym mis Mai, byddai'n fwy priodol gwneud penderfyniadau ar ddyfodol y sefydliad pan fydd canlyniadau'r astudiaethau hyn yn hysbys a gellir eu hasesu ochr yn ochr ag uchelgeisiau ac amcanion polisi'r Llywodraeth nesaf.

Fodd bynnag, rwy'n cydnabod pwysigrwydd rhywfaint o sicrwydd a pharhad i'r sefydliad yn y tymor byr i'r tymor canolig, tan etholiad y Senedd.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

## Argymhelliad 2

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai'r Llywodraeth gael gwared ar yr ansicrwydd tymor byr ynghylch gwaith y Comisiwn drwy ymestyn cyfnodau swydd y Cadeirydd a'r comisiynwyr eraill i ochr arall etholiadau'r Senedd yn 2026

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r Pwyllgor y dylid estyn swydd y Cadeirydd a'r Comisiynwyr y tu hwnt i etholiadau'r Senedd er mwyn sicrhau parhad dros y cyfnod hwn. Rwy'n bwriadu ysgrifennu at y Cadeirydd a'r Comisiynwyr cyn bo hir, yn eu gwahodd i barhau yn eu rolau tan fis Medi 2026, er mwyn caniatáu i'r Llywodraeth nesaf wneud penderfyniad ynghylch dyfodol Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru

Goblygiadau Ariannol – Mae'r gyllideb bresennol ar gyfer y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol wedi cael ei gosod tan 31 Mawrth 2026. Ar ôl y dyddiad hwn, bydd costau'r Comisiynydd yn cael eu talu gan gyllidebau presennol.

## Argymhelliad 3

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Rhaid i Lywodraeth Cymru gytuno ar derfyn amser benodol i ymateb i adroddiadau'r Comisiwn. Yn ein barn ni, dylai ystyried mabwysiadu amser ymateb o rhwng 6 wythnos a 3 mis, fel ei fod yn cyd-fynd yn well â'r amser ymateb ar gyfer adroddiadau gan bwyllgorau'r Senedd ac Asesydd Annibynnol Diogelu'r Amgylchedd Cymru.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ymateb i adroddiadau'r Comisiwn o fewn chwe mis. Ymatebwyd i'r adroddiad diweddar ar lifogydd o fewn yr amserlen hon.

Mae argymhellion y Comisiwn yn aml yn canolbwyntio ar y dyfodol, gan edrych ar faterion hyd at 80 mlynedd yn y dyfodol. Cydnabyddir bod hyn yn her i lunwyr polisi sy'n gofyn am ddealltwriaeth ddyfnach o'r argymhellion ac ymarferoldeb eu gweithredu o fewn fframweithiau presennol.

Er bod Llywodraeth Cymru yn fodlon ystyried y dyddiadau cau ar gyfer ymateb, rydym yn derbyn barn y Comisiwn nad yw ymateb mewn pryd mor bwysig â'r awydd am herio o fewn Llywodraeth Cymru ei hun.

Yn y cyd-destun hwn mae'n bosibl y bydd angen dull gwahanol ac y dylid sefydlu system wahanol sy'n manteisio ar ymgysylltu â Gweinidogion a swyddogion ar argymhellion Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru yn hytrach na chyfnewid gohebiaeth.

Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn cysylltu â'r Comisiwn presennol i drafod dull amgen a ffefrir i'r system bresennol y gellir ei ddefnyddio wedyn i lywio unrhyw newidiadau i fframwaith Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru ar ôl etholiad y Senedd.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

## Argymhelliad 4

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai Llywodraeth Cymru orffen ei hystyriaeth o argymhelliad blaenorol y Pwyllgor y dylai ystyried yr achos dros ymestyn y tymor penodi ar gyfer Comisiynwyr, fel ei fod yn cyd-fynd yn well â phenodiadau cyhoeddus eraill.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno, drwy ymestyn y tymor penodi presennol ar gyfer y Comisiynwyr presennol tan fis Medi 2026; bydd hyn yn cyfateb i dymor o 4 blynedd a 3 mis. Byddai'n synhwyrol bod unrhyw Gomisiynwyr yn y dyfodol yn cael eu penodi i wasanaethu tymhorau llawn y Senedd.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

## Argymhelliad 5

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai Llywodraeth Cymru, fel rhan o'r gwaith o orffen ei hystyriaeth o statws y Comisiwn, gytuno ar gyllid ar gyfer tymor y Llywodraeth i sicrhau aliniad â'r llythyr cylch gwaith.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai'r mater hwn yn cael ei integreiddio i unrhyw benderfyniadau gan Lywodraeth newydd ar drefniadau Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru yn y dyfodol, ar ôl etholiadau'r Senedd yn 2026.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

## Argymhelliad 6

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai'r Comisiwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am weithredu argymhellion yr archwiliad ym mis Awst 2025 a mis Mawrth 2026.

Ymateb:

Mater i Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru yw ymateb i hwn.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

## Argymhelliad 7

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu amserlen ar gyfer cyflawni'r ymrwymiad i gynhyrchu Cynllun Ynni Cenedlaethol i Gymru, fel y nodir yn ei hymateb i adroddiad CSCC ar ynni adnewyddadwy

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor.

Ers i ni ymrwymo i gyflawni Cynllun Ynni Cenedlaethol ym mis Rhagfyr 2021, mae'r sefyllfa ledled y DU wedi newid yn sylweddol. Mae cydnabyddiaeth gynyddol wedi bod mai dim ond drwy ddull wedi'i gynllunio y byddwn yn cyflawni system ynni carbon isel a fydd yn golygu cyn lleied o gost ac effaith â phosib.

Bwriad y gwaith ar ddatblygu Cynllun Ynni Cenedlaethol oedd adeiladu ar y cynlluniau ynni ardaloedd lleol y gwnaethom helpu awdurdodau lleol yng Nghymru i'w datblygu. Mae gan bob un o'r 22 awdurdod lleol Gynllun Ynni Ardal Leol ar waith ac rydym yn y sefyllfa eiddigeddus o fod y genedl gyntaf yn y DU i gael cynlluniau ynni lleol ar hyd a lled y wlad.

Rydym wedi gweithio gydag Energy Systems Catapult, ein cynghorydd technegol ar y cynlluniau hyn, i ddod â'r data o bob rhan o Gymru ynghyd i ddeall beth mae hyn yn ei olygu ar lefel ranbarthol a chenedlaethol. Ein bwriad yw parhau i ddefnyddio'r sylfaen dystiolaeth hon, gan ei hymgorffori ym Map Data Cymru i gefnogi camau gweithredu.

Mae cyd-gomisiynu'r Cynllun Ynni Gofodol Strategol (SSEP) ar gyfer Prydain Fawr gan Lywodraethau Cymru, yr Alban a'r DU, sydd i'w gyflawni gan y Gweithredwr System Ynni Cenedlaethol (NESO), yn ddatblygiad arwyddocaol arall. Bydd y SSEP cyntaf yn gynllun ledled Prydain Fawr a fydd yn mapio lleoliadau, meintiau a mathau posibl o seilwaith cynhyrchu a storio trydan a hydrogen dros amser.

Yn gynnar yn 2025 daeth NESO hefyd yn gyfrifol am gynhyrchu Cynlluniau Strategol Ynni Rhanbarthol ledled Cymru, yr Alban a Lloegr. Bydd y cynlluniau hyn yn helpu i sicrhau bod ardaloedd lleol yn cael y seilwaith ynni sydd ei angen arnynt i fodloni uchelgeisiau sero net a thwf lleol. Bydd y Cynlluniau Strategol Ynni Rhanbarthol yn rhan o weithgareddau cynllunio ynni strategol ehangach NESO, gan sicrhau dull cydgysylltiedig rhwng lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

Mae gweithgarwch ar y Cynllun Ynni Cenedlaethol, felly, wedi'i oedi ac rydym yn gweithio gyda NESO a Llywodraeth y DU i ddeall yr amrywiaeth o newidiadau sydd ar y gweill a rhoi darlun o bolisïau Cymru mewn meysydd datganoledig. Unwaith y cytunir ar yr amserlenni a chwmpas yr allbynnau ar gyfer cynlluniau system Prydain Fawr, byddwn yn gallu barnu a oes angen Cynllun Ynni Cenedlaethol i gefnogi'r gwaith cyflenwi. Tan hynny, byddwn yn parhau i weithio gyda rhanbarthau i ddeall a chefnogi eu huchelgeisiau ynghylch ynni ac i

wireddu'r cyfleoedd economaidd ledled Cymru sy'n deillio o symud i system ynni glân.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

## Argymhelliad 8

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ymateb amserol a sylweddol i adroddiad ar lifogydd 2024 y Comisiwn.

Ymateb: Derbyn

Anfonwyd ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad llifogydd y Comisiwn at y Comisiwn ar 17 Ebrill 2025. Mae'r ymateb hefyd i'w weld ar ein gwefan.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

## Argymhelliad 9

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i ymateb i'r adroddiad ar gyfathrebu am yr hinsawdd cyn diwedd tymor y Senedd hwn

Ymateb: Derbyn

Bydd Llywodraeth Cymru yn ymateb i'r adroddiad cyfathrebu ar hinsawdd ar ôl ei gyhoeddiad arfaethedig yn hydref 2025 a chyn diwedd tymor y Senedd hwn.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

## Argymhelliad 10

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai'r Comisiwn barhau i fonitro a holi Llywodraeth Cymru ynglŷn â sut y mae'r argymhellion o'i adroddiad ynni adnewyddadwy yn cael eu rhoi ar waith.

Ymateb:

Mater i Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru yw ymateb i hwn.

Goblygiadau Ariannol – Dim.